

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag addasu deunydd sain gan ddefnyddio caledwedd neu feddalwedd samplo a syntheseisydd analog neu ddigidol. Caiff samplwyr eu defnyddio i gychwyn cerddoriaeth. Caiff syntheseisyddion eu defnyddio'n gyffredinol i un ai ailgynhyrchu a golygu sŵn offerynnau traddodiadol neu greu synnau neu effeithiau electronig amrywiol.

Mae'r safon hon yn ymwneud â dewis ac addasu syntheseisyddion, cychwyn samplau, cyfuno deunydd wedi'i syntheseiddio a'i samplo, monitro ansawdd yn erbyn y cyfarwyddyd a chadw gwaith.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr recordio a rhaglenwyr sy'n defnyddio samplwyr a syntheseisyddion i addasu deunydd sain.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. adalw deunyddiau sydd wedi'u cadw a'u harchifo pan fo'u hangen i gwblhau'r gwaith
2. defnyddio mathau priodol o synthesis ar gyfer nodweddion sain gofynnol
3. addasu paramedrau syntheseisyddion i fodloni gofynion
4. defnyddio samplwyr a syntheseisyddion yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
5. cyfuno deunyddiau wedi'u syntheseiddio a'u samplo i fodloni gofynion
6. cychwyn samplau ar adegau priodol
- 7.

monitro ansawdd sain wedi'i syntheseiddio yn erbyn y. gofynion

1. addasu paramedrau rhaglennu a samplo samplwyr a syntheseisyddion i fodloni'r gofynion creadigol
2. creu, cadw a llwytho systemau a rhaglenni samplo a syntheseiddio i fodloni'r gofynion
3. cadw ac archifo holl ddeunydd sydd wedi'i greu yn unol â phrosesau cyfundrefnol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gwahaniaethau rhwng dilyniannwyr sain a MIDI (Musical Instrument Digital Interface)
2. gofynion ar gyfer gosod (MIDI) mewn dilyniannwyr
3. sut caiff systemau eu rhoi ar waith i integreiddio dilyniannwyr, samplwyr a syntheseisyddion
4. gweithrediad a pharamedrau synthesis adioli, tynnol, FM, AM, gronynnog a thonadwy
5. y gwahanol ffyrdd o gychwyn samplau gan gynnwys defnyddio allweddellau a thrwy sgrîn pecyn dilyniannu
6. sut i ddefnyddio pecynnau dilyniannu meddalwedd i gyfuno rhannau gwreiddiol, wedi'u syntheseiddio ac wedi'u samplo
7. egwyddorion sylfaenol a nodweddion sain mathau cyffredin o synthesis
8. y gwahaniaethau mewn sain, gwahanol ddefnyddiau, cyd-destunau a dulliau ar gyfer gwahanol fathau o synthesis
9. gweithrediadau synthesis cyffredin a'u cyfyngiadau

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2020
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Creative and Cultural Skills
RCU gwreiddiol	CCSMT11
Galwedigaethau perthnasol	Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Peirianwyr Cynorthwyol, Gweithredwyr Tapiau, Cyfansoddwyr, Ysgrifenwyr, Rhaglenwyr
Cyfres/Set	Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth
Geiriau Allweddol	Addasu; Deunydd Sain Audio; Samplwr; Syntheseisydd; Caledwedd; Meddalwedd; Sain; Cerddoriaeth; Recordio Sain; Technoleg Cerddoriaeth